# YR AELOD CABINET DROS ADFYWIO, HAMDDEN, DIWYLLIANT A THWRISTIAETH

**DYDD** Llun, 12 Chwefror 2024

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** H.A.L. Evans (Aelod o'r Cabinet) (Yn Rhithwir)

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol (Yn Rhithwir):**
M. Bull, Rheolwr Rhanbarthol - Datblygu Economaidd
H. Barrett, Cydlynydd Prosiect a Chyllido
M. E. Pemberton, Cydlunydd Rhaglenni Gwledig
R. Phillips, Rheolwr Rhaglenni Ewropeaidd
A. Eynon, Prif Gyfieithydd
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Ystafell Bwyllgor 1, Neuadd y Sir, Caerfyrddin SA31 1JP ac o bell - 10.00 - 10.06 yb

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

## 2. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 18 IONAWR 2024

**PENDERFYNWYD llofnodi Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 18 Ionawr 2024, gan ei fod yn gywir.**

## 3. RHAGLEN DEG TREF (CRONFA CYFALAF)

Rhoddodd yr Aelod Cabinet ystyriaeth i gais a gyflwynwyd fel rhan o gronfa gyfalaf y Deg Tref.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais canlynol am gymorth o Gronfa Gyfalaf y 10 Tref yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad:**

| Yr Ymgeisydd | Prosiect | Dyfarniad |
|---|---|---|
| Cyngor Tref Sanclêr | Prosiect Porth y Gât a Sanclêr, Sanclêr | £33,697 |

## 4. RHAGLEN DEG TREF (CRONFA REFENIW)

Rhoddodd yr Aelod Cabinet ystyriaeth i gais a gyflwynwyd fel rhan o gronfa refeniw y Deg Tref.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais canlynol am gymorth o Gronfa Refeniw y 10 Tref yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad:**

| Yr Ymgeisydd | Prosiect | Dyfarniad |
| --- | --- | --- |
| Cyngor Tref Llandeilo | Swyddog Marchnata Llandeilo | £20,000 |

**5. ADRODDIADAU NAD YDYNT I'W CYHOEDDI**

**PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

**6. CYMUNEDAU MENTRUS**

**Yn sgil cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 5 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Roedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion a dyheadau busnes ac ariannol yr ymgeiswyr. Yn yr achos hwn, roedd budd y cyhoedd o ran cynnal cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran cynnal tryloywder ac atebolrwydd, oherwydd gallai datgelu'r wybodaeth hon danseilio'n annheg sefyllfa'r sefydliadau dan sylw mewn perthynas â sefydliadau eraill sy'n gweithredu yn yr un maes o ran gweithgarwch economaidd.**

Rhoddodd yr Aelod Cabinet ystyriaeth i geisiadau a gyflwynwyd am arian o'r Gronfa Cymunedau Mentrus a oedd yn rhan o'r rhaglen Arfor 2.

**PENDERFYNWYD:**

**6.1 cymeradwyo'r ceisiadau canlynol am gymorth o'r Gronfa Cymunedau Mentrus yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad:**

| Cyfeirnod yr Ymgeisydd | Dyfarniad |
| --- | --- |
| **CM-02-01** | **£20,000** |
| **CM-02-03** | **£17,500** |
| **CM-02-04** | **£30,000** |
| **CM-02-05** | **£17,535** |
| **CM-02-06** | **£28,000** |
| **CM-02-07** | **£30,000** |
| **CM-02-09** | **£30,000** |
| **CM-02-10** | **£9,887** |

**6.2 Bod y ceisiadau canlynol am gymorth o'r Gronfa Cymunedau Mentrus yn cael eu gwrthod:**

| Cyfeirnod yr Ymgeisydd | Rheswm |
|---|---|
| **CM-02-02** | Y cais hwn oedd y cais oedd wedi sgorio isaf ac nid oes digon o gyllideb. |
| **CM-02-08** | Nid oedd y sefydliad yn un cyfansoddiadol ac felly ystyrir ei fod yn anghymwys. |

## 7. CRONFA YNNI ADNEWYDDADWY BUSNES

**Yn sgil cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 5 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Roedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion a dyheadau busnes ac ariannol yr ymgeiswyr. Yn yr achos hwn, roedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran cynnal tryloywder ac atebolrwydd, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o roi'r bobl a'r busnes a enwir yn yr adroddiad dan anfantais annheg mewn perthynas â'u cystadleuwyr masnachol.**

Rhoddodd yr Aelod Cabinet ystyriaeth i gais prosiect a oedd wedi dod i law gan fusnes a oedd yn gofyn am gymorth gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin – Cronfa Ynni Adnewyddadwy Busnes, a oedd yn galluogi busnesau i ymgymryd â phrosiectau gwella ynni adnewyddadwy gan arwain at arbedion effeithlonrwydd busnes a lleihau carbon.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r prosiect a gyflwynwyd i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin – Cronfa Ynni Adnewyddadwy Busnes fel y manylir yn yr adroddiad.**

**AELOD O'R CABINET** **DYDDIAD**